Tansgrifennu risgiau newydd cymhleth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thansgrifennu risgiau newydd cymhleth. Bydd eich gwaith yn cynnwys asesu risgiau newydd cymhleth o fewn eich awdurdod, a phenderfynu a ellir eu derbyn. Mae risg yn gymhleth lle nad yw'n fater o drefn ac nad oes modd ei wneud yn fecanyddol, h.y. mae angen cyd-drafod neu mae gofynion technegol o ran materion cyfreithiol neu dansgrifennu cymhleth neu oblygiadau ariannol sylweddol. Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau'r wybodaeth ofynnol gan y cwsmer, paru gofynion cwsmeriaid a chwmpas y polisi sydd ar gael, a threfnu ymchwiliadau pellach i'r risg os bydd gofyn. Dylid defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i lunio asesiad o'r risg a phennu pris teg. Mae hefyd yn golygu penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod y risg, awgrymu mesurau gwella risg (lle bo hynny'n briodol), a chymhwyso meini prawf tansgrifennu cyfredol cyn rhoi gwybod i'r cwsmer beth yw'r premiwm a'r telerau.

Bydd y safon hon yn addas i chi os ydych chi'n gweithio i yswiriwr neu ganolwr, neu sefydliad arall sydd ag awdurdod dirprwyedig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Derbyn risgiau newydd sy'n syrthio o fewn lefel gytunedig eich cyfrifoldeb, a throsglwyddo eraill i'r person priodol
2. Casglu gwybodaeth ddigonol, gan ddatrys unrhyw anghysondebau, i'ch galluogi i asesu'r risg yn gywir, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Rhoi gwybod i gwsmeriaid am unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r risg, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Penderfynu derbyn neu wrthod risgiau, caniatáu ar gyfer holl nodweddion a hanes y risg, ac effaith eich penderfyniad ar fusnes arall
5. Cymhwyso cyfyngiadau priodol neu estyniadau i'r yswiriant i adlewyrchu nodweddion y risg, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Nodi ac egluro unrhyw wahaniaethau rhwng yswiriant y polisi a gofynion y cwsmer
7. Cyfeirio unrhyw sefyllfaoedd y tu allan i lefel eich awdurdod at y person neu'r adran sy'n briodol
8. Cymryd camau i osgoi unrhyw oedi diangen wrth dansgrifennu'r risg, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Hysbysu cwsmeriaid ynghylch eich penderfyniad yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Cytuno ar y telerau terfynol a'r premiwm, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. Cadw cofnodion cywir a chyflawn ar gyfer pob cam, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
12. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Cwmpas y polisi, y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys estyniadau neu gyfyngiadau safonol ac ansafonol
4. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor
5. Tueddiadau cyfredol y farchnad a datblygiad
6. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol pan fydd tansgrifennu'n syrthio y tu allan i'r terfynau hynny
7. Safonau a gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys delio gyda chwynion
8. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ynghylch cyfathrebu â chwsmeriaid
9. Sut mae penderfynu a yw cynnig yn cydweddu â phroffil arfaethedig eich sefydliad o ran risg dderbyniol
10. Gweithdrefnau eich sefydliad a'r amgylchiadau ar gyfer rhoi yswiriant, cyhyd â bod yr amodau'n cael eu derbyn
11. y camau sy'n ofynnol ar gyfer tansgrifennu risg sydd y tu allan i lefel gytunedig eich cyfrifoldeb
12. Sut mae cymhwyso meini prawf tansgrifennu
13. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gwerthuso materion yn effeithiol er mwyn gwneud penderfyniadau priodol
2. Rydych yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac er lles pennaf eich cwsmer
3. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
4. Rydych yn dangos ymwybyddiaeth o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynnig
5. Rydych yn datgelu gwybodaeth dim ond i'r rhai sydd ei hangen ac sydd â hawl i'w derbyn
6. Rydych yn cyd-drafod yn effeithiol

Tansgrifennu risgiau newydd cymhleth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |